# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Y Bumed Senedd

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Medi 2017

Amser: 09.30 - 14.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4408

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Sue Phelps, Alzheimer's Society<br>Yr Athro Sue Jordan, Prifysgol Abertawe<br>Tim Banner, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Suzanne Tarrant |
| Staff y Pwyllgor: | Sian Thomas (Clerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Trawsgrifiad

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns AC a Dawn Bowden AC.

## 2 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 1 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

## 3 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 2 - Cymdeithas Alzheimers

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sue Phelps o Gymdeithas Alzheimer's Cymru.

## 4 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 3 - Yr Athro Sue Jordan

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Sue Jordan a Tim Banner.

## 5 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 4 - Suzanne Tarrant

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Suzanne Tarrant.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yn dilyn y cyfarfod ar 15 Mehefin

6.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion mewn perthynas â'r ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd.

### 6.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â threfniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

6.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

### 6.3 Craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 - craffu ariannol yn ystod y flwyddyn - llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog yn dilyn y cyfarfod ar 29 Mehefin

6.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog.

### 6.4 Llythyr gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar ôl lansio'r adroddiad

6.4a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol mewn perthynas â lansio adroddiad y Pwyllgor ar recriwtio meddygol.

### 6.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

6.5a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

### 6.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

6.6a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

### 6.7 Llythyr gan Bwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin

6.7a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Bwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin.

### 6.8 Llythyr gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â chychwyn adrannau 2 a 3 (gordewdra)

6.8a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

### 6.9 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynglŷn â chanllawiau sy'n cefnogi gweithrediad y Ddeddf

6.9a Nododd y Pwyllgor y llythyr gab Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon mewn perthynas â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 5 - pobl sydd wedi'i effeithio gan y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal

8.1 Clywodd y Pwyllgor gan berson sydd wedi cael profiad uniongyrchol o ddefnyddio meddyginiaeth gwrth-seicotig mewn cartrefi gofal a lleoliadau ysbyty.

## 9 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod eitemau 2, 3, 4, 5 ac 8 o'r cyfarfod.

## 10 Ymchwiliad i ofal sylfaenol - trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor gopi drafft cyntaf o adroddiad ei ymchwiliad i glystyrau gofal sylfaenol.